

## Creadigrwydd

Mae'r adran hon wedi'i chymryd o brosiect yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (y QCA) sy'n dwyn y teitl 'Y Cwricwlwm Cenedlaethol ar Waith', a gellir cael rhagor o fanylion am y prosiect hwn trwy droi at

<http://www.ncaction.org.uk/creativity>.

### Beth yw creadigrwydd?

**Roedd adroddiad y Pwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol, sef 'All our futures: creativity, culture and education' (Yr Adran Addysg a Chyflogaeth, 1999), wedi diffinio creadigrwydd ar sail pedair nodwedd:**

- Mae'n golygu meddwl neu ymddwyn yn ddychmygus bob amser.
- Rhaid i'r gweithgaredd dychmygus hwn fod yn bwrpasol - hynny yw, rhaid iddo gyflawni amcan penodol
- Rhaid i'r prosesau gynhyrchu rhywbeth gwreiddiol
- Rhaid bod rhyw werth i'r canlyniad mewn perthynas 'r amcan.



## Pam y mae creadigrwydd yn bwysig?

### Creadigrwydd:

- Mae'n gwella hunan-barch, cymhelliant a chyflawniad disgyblion. Mae disgyblion sy'n cael eu hannog i feddwl yn greadigol ac yn annibynnol yn dangos mwy o ddiddordeb mewn darganfod pethau drostynt eu hunain, ac maent yn fwy agored i syniadau, yn fwy awyddus i weithio gydag eraill er mwyn archwilio syniadau, ac yn barod i weithio ar l i'r wers orffen wrth fynd ar l syniad neu weledigaeth. O ganlyniad, maent yn dysgu'n gyflymach, ac mae eu lefelau cyflawniad a'u hunan-barch yn gwella.
- Mae'n paratoi disgyblion gogyfer bywyd. Os yw disgyblion yn cael cyfleoedd i feddwl yn greadigol ac yn feirniadol er mwyn datrys problemau a gwneud gwahaniaeth er gwell, dylai hyn eu helpu i fod yn greadigol ac yn arloesol a dangos menter a'r gallu i arwain. Bydd hyn yn eu paratoi ar gyfer eu rolau fel gweithwyr a dinasyddion yn y

dyfodol. Yn ogystal, dylai'r cyfleoedd hyn i ymarfer a datblygu creadigrwydd alluogi disgyblion i reoli risg, ymateb yn gadarnhaol i heriau a chyfrifoldebau ac ymdopi newid ac anawsterau.

- Mae'n cyfoethogi bywydau disgyblion. Trwy hybu creadigrwydd, gall athrawon roi'r cyfle i bob disgybl ddarganfod a dilyn ei ddiddordebau a'i ddoniau arbennig ei hun. Mae pawb yn gallu dangos rhyw fesur o greadigrwydd. Gall disgyblion creadigol fyw bywydau cyfoethocach, a gallant wneud cyfraniad gwerthfawr i'r gymdeithas yn y tymor hwy.

## Sut mae adnabod creadigrwydd?

**Pan fo disgyblion yn meddwl ac yn ymddwyn yn greadigol, rydych yn debygol o'u gweld:**

- Yn holi ac yn herio
- Yn ffurfio cysylltiadau ac yn sylwi ar gydberthnasau
- Yn rhagweld yr hyn a allai ddigwydd
- Yn archwilio syniadau gan gadw meddwl agored
- Yn myfyrio'n feirniadol ynghylch syniadau, gweithrediadau a chanlyniadau.

## Sut gall athrawon hybu creadigrwydd?

**Gall athrawon helpu i hybu a datblygu creadigrwydd disgyblion trwy ystyried:**

- Eu gwaith cynllunio
- Y modd y maent yn cyflwyno gwaith dysgu
- Eu dulliau addysgu
- Eu gwaith adolygu a gwerthuso.



## Cynllunio

- Ceisiwch gynnwys amcanion mewn perthynas chreadigrwydd yn eich gwaith cynllunio (gallech gyfuno'r rhain ag amcanion sy'n benodol i bynciau arbennig).
- Chwiliwch am gyfleoedd i hybu creadigrwydd yn eich cynlluniau gwaith a'ch cynlluniau gwersi presennol. A allech chi addasu unrhyw weithgareddau fel eu bod yn cynnig mwy o gyfle i'r disgyblion fod yn greadigol?
- Lluniwch weithgareddau sy'n ddilys o safbwynt personol a diwylliannol. Ceisiwch adeiladu ar ddiddordebau a phrofiadau'r disgyblion (yn yr ysgol a'r tu allan iddi).
- Cynlluniwch ar gyfer ystod o arddulliau dysgu ac addysgu fel bod cynifer o ddisgyblion ag sy'n bosibl yn cael y cyfle i arddangos eu creadigrwydd. Gall gweithgareddau chwarae r l gynnig cyfle i ddisgyblion ddefnyddio'u dychymyg i raddau mwy a rhoi rhyddid iddynt archwilio syniadau. Mae gwaith arbrosi

ymarferol, gwaith datrys problemau, gwaith trafod a gwaith ar y cyd i gyd yn cynnig cyfleoedd ardderchog i feddwl ac ymddwyn yn greadigol.

- Peidiwch byth cholli golwg ar bwysigrwydd gwybodaeth a sgiliau. Nid yw disgyblion yn gallu mynd i'r afael 'r heriau y maent yn dod ar eu traws yn greadigol ac yn bwrpasol oni bai fod ganddynt sylfaen gadarn o wybodaeth a sgiliau.



## Cyflwyno gwaith dysgu

- Rhowch nod clir i'r disgyblion sy'n heriol ond yn gyraeddadwy.
- Rhannwch yr amcanion'r disgyblion, a rhowch gyfleoedd iddynt ddewis ffyrdd o weithio a llywio cyfeiriad eu gwaith.
- Mae manau cychwyn ysgogol megis cyfle i weld, clywed ac aroglu pethau a chyfle i gael cyswllt phobl greadigol yn ennyn diddordeb y disgyblion ac yn tanio eu dychymyg.
- Rhowch gyfres o gyfyngiadau i'r disgyblion (er enghraifft, terfyn ar amser a/neu adnoddau). Mae hyn yn gwneud gweithgaredd yn fwy hygyrch, a gall annog y disgyblion i arbrofi a gwneud gwaith byrfyfyr.

## Addysgu

- Ewch ati i annog y disgyblion i holi, ffurfio cysylltiadau, rhagweld yr hyn a allai ddigwydd ac archwilio syniadau. Gwnewch yn siwr eich bod yn hybu ac yn gwobrwyo dychymyg a gwreiddioldeb.

- Gofynnwch gwestiynau penagored fel 'Beth pe bai...?' a 'Sut gallech chi...?' er mwyn helpu'r disgyblion i weld pethau o safbwyntiau gwahanol.
- Gwnewch yn siwr eich bod yn gwerthfawrogi ac yn canmol yr hyn y mae'r disgyblion yn ei wneud a'i ddweud. Ceisiwch greu amgylchedd lle maent yn teimlo'n ddiogel i ddweud pethau, cymryd risgiau ac ymateb yn greadigol.
- Os ydych am annog y disgyblion i fod yn fentrus ac archwilio syniadau'n rhydd ceisiwch greu amgylchedd gweithio hwyliog a hamddenol.
- Os ydych am annog y disgyblion i weithio mewn modd dychmygus ceisiwch greu amodau sy'n caniatu iddynt fyfyrion dawl a chanolbwyntio.
- Gwnewch y mwyaf o ddigwyddiadau annisgwyl. Lle bo hynny'n briodol, rhowch eich cynllun gwers i'r naill ochr ac ymatebwch i'r hyn sy'n digwydd ar y pryd, ond peidiwch byth cholli golwg ar eich amcanion dysgu cyffredinol.

# PESS

Key Stage 2  
Cyfnod Allweddol 2

- Byddwch yn barod i gymryd cam yn l a chaniat u i'r disgyblion gymryd y blaen. Fodd bynnag, gwnewch yn siwr eich bod wrth law bob amser i gynnog awgrymiadau a chymorth iddynt yn l yr angen.
- Ymunwch 'r disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau, a gwnewch yn siwr eich bod yn meddwl ac yn ymddwyn mewn modd creadigol. Gall dangos i'r disgyblion eich bod chi'n dal i ddysgu hefyd helpu i greu amgylchedd dysgu agored ac adeiladol.
- Rhowch gyfleoedd i'r disgyblion gydweithio disgyblion eraill yn eu dosbarth, eu grwp blwyddyn a grwpiau oedran gwahanol.



## Adolygu a gwerthuso

- Cynorthwywch y disgyblion i ddatblygu meini prawf y gallant eu defnyddio i farnu eu gwaith eu hunain, yn enwedig ei wreiddioldeb a'i werth (gallai hyn fod mor syml gofyn 'Beth sy'n gwneud ..... da?')
- Stopiwch yn rheolaidd fel y gellir cynnal trafodaeth agored ynghylch y problemau y mae'r disgyblion yn eu hwynebu a sut y gallant eu datrys. Anogwch y disgyblion i rannu syniadau 'i gilydd a siarad am eu cynnydd.
- Cynorthwywch y disgyblion i werthfawrogi'r nodweddion da yng ngwaith disgyblion eraill a gwerthfawrogi ffyrdd o weithio sy'n wahanol i'r rhai y maen nhw'n eu defnyddio.
- Cynorthwywch y disgyblion i roi a derbyn adborth adeiladol.

**Mae'r wefan <http://www.ncaction.org.uk/> creativity yn cynnwys rhai enghreifftiau ardderchog, ac mae'n werth bwrw golwg arni.**



## Creadigrwydd a dawns

Trafodwyd materion sy'n ymwneud chreadigrwydd a dawns yn yr adran ar y Cwricwlwm Cenedlaethol ond mae'n werth ailedrych arnynt yn y fan hon hefyd. Caiff nifer o'r agweddau a nodir uchod eu cynnwys a'u hybu yn y Dull AGChY o Addysgu Dawns. Un agwedd nad yw'n cael ei thrafod yn nogfennau'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm yw'r dechneg dysgu ar garlam y gellir ei defnyddio i hybu creadigrwydd. Mae'r dechneg hon (y cyfeirir ati yn Saesneg fel **SCAMPER**) yn cynnwys rhai o'r prif weithrediadau y gall disgyblion eu hystyried i'w helpu i ddatblygu dulliau a syniadau newydd ac arloesol.

Defnyddir y cysyniad hwn ym maes busnes i helpu busnesau i arallgyfeirio a gwneud y mwyaf o gyfleoedd busnes. Mae'r gweithrediadau sy'n rhan o'r dechneg yn cynnwys:

*Cyfnewid elfen o'r cysyniad, y syniad, y weithred neu'r broses am rywbeth arall Cyfuno cysyniadau, syniadau, gweithrediadau neu brosesau*

*Addasu cysyniadau, syniadau, gweithrediadau neu brosesau Diwygio cysyniadau, syniadau, gweithrediadau neu brosesau*

*Defnyddio cysyniadau, syniadau, gweithrediadau neu brosesau at ddiben arall Dileu cysyniadau, syniadau, gweithrediadau neu brosesau*

*Gwrthdroi cysyniadau, syniadau, gweithrediadau neu brosesau*

Os caiff y dechneg hon ei chymharu 'r broses o ddatblygu motiff yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, gwelir bod nifer o a gweddau tebyg yn bodoli rhyngddynt. Felly, wrth ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch datblygu motiff, mae disgyblion yn cael cipolwg ar sut y gallant fod yn greadigol, yn arloesol ac yn entrepreneuriaidd. Yr hyn y mae angen i athrawon ei wneud yw tynnu sylw at yr agweddau tebyg hyn a rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r wybodaeth hon mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol.



## Datblygu motiff CA2

**Repetition** - repeat the whole thing or part of it

**Ailadrodd** - ailadrodd y motiff cyfan neu ran ohono

**Torri a gludo** - aildrefnu'r gweithrediadau sy'n rhan o'r motiff

**Dileu** - tynnu gweithred allan

**Ychwanegu** - cynnwys gweithred newydd

**Disodli** - tynnu gweithred allan a rhoi gweithred arall yn ei lle

**Gwrthdroi** - perfformio'r motiff cyfan neu rannau ohono o chwith gan ddechrau o'r diwedd

**Saib** - ychwanegu eiliad o lonyddwch

**Ailddirwyn** - perfformio'r motiff cyfan neu ran ohono am yn I fel pe bai rhywun wedi gwasgu'r botwm ailddirwyn (rewind) ar fideo

## Datblygu motiff CA3

**Newid gweithrediadau** - teithio, troi, neidio, ystumio, llonyddwch, cyffwrdd neu godi

**Amrywio** - agweddau megis lefel, cyflymder, cyfeiriad, llwybr

**Datblygu** - gweithrediadau cyferbyniol

**Datblygu** - gweithrediadau ategol

**Newid nifer y dawnswyr sy'n perfformio ar unrhyw adeg unawd** - deuwad, triawd, pedwarawd ac ati

**Newid y trefniannau/patrymau gofodol** - cylch, sgwr, triongl, llinell, agos, pell, ar hap ac ati

**Newid y rhannau o'r corff sy'n cael eu defnyddio** - breichiau, coesau, bysedd, pen, cluniau ac ati

**Newid y berthynas rhwng y dawnswyr drwy newid yr hyn y mae'r dawnswyr yn edrych arno neu leoliad a chyfeiriad eu cyrff** - edrych ar ei gilydd, edrych i ffwrdd, edrych ar y llawr ac ati

**Newid y motiff fel ei fod yn cynnwys prop** - het, ffon, cadair, p l, ymbar l, masg ac ati

**Newid y ddyfais goreograffig sy'n cael ei defnyddio** - unffurfiaeth, arwain a dilyn, adlewyrchu, gweithred ac adwaith, cwestiwn ac ateb, uchafbwyntiau, gweithrediadau pontio ac ati

**Newid ystyr y motiff trwy newid y modd y mae'r dawnswyr yn dawnsio. Er enghraifft:** cyfnewid sgipio ysgafn a hapus am lusgo traed yn drist

**Symleiddio** - gwneud y motiff yn fwy syml ac yn llai cymhleth

**Manylu** - gwneud y motiff yn fwy cymhleth a manwl